

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Epost / email: [clerc.llansantffraed@btinternet.com](mailto:clerc.llansantffraed@btinternet.com)  
Tel: 01545 570323

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, y 5ed o Fedi 2017 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Y Cynghorydd Lodwick Lloyd; Y Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins a Philip Tomlins.

Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 5<sup>th</sup> September 2017 at the Reading Room, Llanon.**

Present:

Chairman: Councillor Lodwick Lloyd;  
Councillors Sheila Davies, Jim Hughes, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins and Philip Tomlins.

County Councillor Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

- |   |   |
|---|---|
| <p><b>46 Ymddiheuriad</b><br/>Ymddiheurodd y Cynghorydd Lowri Jones am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.</p> <p><b>47 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar y 1af o Awst 2017</b><br/>Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Awst 2017 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi taw'r cost cywir o anfon ddau gynrychiolydd i Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru oedd £160 ac i gytuno anfon £20 arall iddynt.</p> <p><b>48 Materion yn codi o'r Cofnodion</b></p> <p><b>48.1 Y Chalet a'r Llain</b><br/>Nodwyd y trefniadau ar gyfer y cyfarfod am 7.30 pm ar nos Lun 11eg Medi yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon a chytunwyd gwahodd pob Aelod i fod yn bresennol.</p> <p>Dangosodd y Clerc yr arwydd a dderbyniwyd i geisio lleihau'r nifer o gerbydau i fynd i lain y Cyngor a <b>PHENDERFYNWYD</b> gofyn am ganiatad perchennog y llain drws nesa' i godi'r arwydd ar ei dir ef.</p> | <p><b>46 Apologies</b><br/>Councillor Lowri Jones apologised for his inability to attend the Meeting.</p> <p><b>47 Minutes of the Monthly Meeting held on 1<sup>st</sup> August 2017</b><br/>The Minutes of the Meeting of the Council held on 1<sup>st</sup> August 2017 were confirmed as being a correct record, subject to noting that the correct cost of sending two delegates to attend the One Voice Wales Annual Conference was £160 and to agree to forward a further £20.</p> <p><b>48 Matters arising from the Minutes</b></p> <p><b>48.1 The Chalet and the Slang</b><br/>The meeting arranged for 7.30 pm on Monday 11<sup>th</sup> September at the Reading Room, Llanon, was noted and it was agreed that all Members be invited to attend.</p> <p>The Clerk displayed the sign to limit the number of vehicles accessing the Council's slang which had been received and it was <b>RESOLVED</b> to seek the permission of the owner of the adjoining slang to locate it on his land.</p> |
|---|---|

- 48.2 Maes Parcio Traeth y Morfa**  
Nodwyd nad oedd yr ardal wedi'i glirio a gofynwyd I'r Clerc atgoffa'r Cyngor Sir o gais y Cynmgor hwn.
- 48.2 Morfa Beach Car Park**  
It was noted that the area was yet to be cleared and that the Clerk remind the County Council of this Council's request.
- 48.3 Polyn y Faner**  
**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc ddilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir y difrod a wnaed i bolyn y faner.
- 48.3 Flagpole**  
It was **RESOLVED** to request the Clerk to pursue the damage to the flagpole with the County Council.
- 48.4 Cwn yn Baeddu**  
Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ateb gan y Cyngor Sir a chytunodd y Cynghorydd Dafydd Edwards ddilyn y mater i fyny gyda'r swyddogion er mwyn codi rhagor o arwyddion swyddogol.
- 48.4 Dog Fouling**  
The Clerk stated that he had not received a reply from the County Council and Councillor Dafydd Edwards agreed to pursue the matter of erecting additional official signs with the Officers.
- 48.5 Hysbysfwrdd yn Llansantffraed**  
Dywedodd y Clerc fod y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards yn dilyn i fyny cais y Cyngor i leoli hysbysfwrdd ar dir yng Nghylch y Llan, Llansantffraed gyda Tai Ceredigion.
- 48.5 Noticeboard at Llansantffraed**  
The Clerk stated that Councillor Dafydd Edwards was pursuing the Council's request to locate a noticeboard on land at Cylch y Llan with Tai Ceredigion,
- 48.6 Meinciau**  
**PENDERFYNWYD** cysylltu a'r contractwyr lleol canlynol i weld os oedd ganddynt diddordeb mewn cynnig pris ar gyfer adnewyddu meinciau'r Cyngor a leolwyd ar hyd a lled y Gymuned:  
Arthur Davies  
Emyr Harries  
Meurig Lloyd  
Gwyndaf Davies
- 48.6 Benches**  
It was **RESOLVED** to contact the following local contractors to ascertain whether they were interested in submitting a quote to renovate the Council's benches located throughout the Community:  
Arthur Davies  
Emyr Harries  
Meurig Lloyd  
Gwyndaf Davies
- 48.7 Heol Llain Prysg**  
Dywedodd y Clerc ei fod wedi cyfeirio'r twll yn rhan ucha'r heol i'r Cyngor Sir ond ei fod yn amlwg nad oedd unrhyw waith wedi'i wneud a **PHENDERFYNWYD** atgoffa'r Cyngor Sir o'r broblem.
- 48.7 Heol Llain Prysg**  
The Clerk advised that he had reported the bad condition of the road to the County Council but apparently no action had been taken and it was **RESOLVED** to remind the County Council of the problem.
- 48.8 Materion yn Ymwneud ag Eiddo – Yr Eisteddle gerllaw Gwesty'r Central a'r Beudy Gynt, Llanon**  
Fe atgoffodd y Clerc yr Aelodau fod y posibilrwydd o rentio'r eisteddle wedi'i ohirio yn y cyfarfod diwethaf er mwyn dilyn i fyny'r posibilrwydd o ddefnyddio'r ennillion o'i waredu mewn cysylltiad â'r
- 48.8 Property Matters - Seating Area adjacent to the Central Hotel & Former Cowshed, Llanon**  
The Clerk reminded the Members that the possible renting of the seating area had been deferred at the last meeting in order to pursue the possibility of whether the proceeds from its disposal could be

datblygiad posib o'r tir y tu cefn i Hafan yr Efail at bwrpas parcio ceir. Fe gynghorodd y Cynghorydd Sir y Cyngor i beidio a dilyn y mater i fyny ar hyn o bryd, ac i aros am ambell ddatblygiad cyn penderfynnu bwrw 'mlaen ai peidio. Dywedodd sawl Aelod eu bont wedi derbyn sawl sylw nawr oddi wrth drigolion Llanon o blaid cadw'r eisteddle ar gyfer ei ddefnyddio gan y gymuned.

**PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa presennol.

**49 Materion Ariannol  
PENDERFYNWYD**

i) talu'r canlynol:

Cyng B Tomlins – ad-daliad y gost o brynu blodau, potiau a phridd/compost ar gyfer yr eisteddle	£39.99
Elwyn Jones - Trin y ffensys	£226
Wicksteed Ltd – Archwiliad Blynyddol y Cyfarpar Chwarae	£85.20
Rebus Cymru (Arwydd)	£153.90
Un Llais Cymru (Balans)	£20
Cyflog y Clerc (2il Chwarter 2017-18):	
Mr Denfer Morgan	£593.58
CThem (TWE)	£148.39

ii) nodi derbyn ad-daliad TAW ar gyfer 2016-17 yn y swm o £545.85.

**50 Cyflwyno Cyfyngiad Cyflymder 20 mya ar yr A487 yn Llanon**

**PENDERFYNWYD** nodi'r Cyngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru y byddant yn ymgynghori gyda'r Cyngor unwaith y byddai'r cynigion yn barod.

**51 Trefniadau Etholiadol**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r drafodaeth o'r mater hwn gan law 10fed Hydref oedd y dyddiad cau ar gyfer sylwadau a dywedodd y Clerc y byddai'n tynnu'r cwestiynau allan o'r Papur Ymgynghori a'u hanfon i'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf.

utilised in connection with the possible development of land at the rear of Hafan yr Efail for car parking purposes. County Councillor Dafydd Edwards advised the Council not to pursue this matter for the time being, and to await certain developments before considering proceeding.

Several Members stated that they had now received comments from residents of Llanon in support of the Council retaining the seating area for community purposes.

It was **RESOLVED** to note the current position.

**49 Finance Matters**

It was **RESOLVED**:

i) to pay the following:

Cllr B Tomlins – reimbursement of cost of purchasing flowers, tubs and topsoil/compost for seating area	£39.99
Elwyn Jones - Treating fencing	£226
Wicksteed Ltd – Annual Inspection of the Play Equipment	£85.20
Rebus Cymru (Sign)	£153.90
One Voice Wales (Balance)	£20
Clerk's Salary (2nd Quarter 2017-18):	
Mr Denfer Morgan	£593.58
HMRC (PAYE)	£148.39

ii) To note receipt of a VAT refund for 2016-17 in the sum of £545.85

**50 Introduction of 20 mph speed limits on the A487 at Llanon**

It was **RESOLVED** to note the advice received from Welsh Government that they would be consulting with the Council once the proposals had been prepared.

**51 Electoral Arrangements**

It was **RESOLVED** to defer consideration of this matter as the deadline for responses was 10th October and that the Clerk stated that he would extract the questions from the Consultation Paper and forward them to Members prior to the next meeting.

**52 Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru**

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cynigion i'w trafod yn y Gynhadledd a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Cynghorydd Tomlins bleidleisio yn unol â'r mandad.

**53 e-ddysgu Ymwybyddiath Gofalwyr**

Dywedodd y Clerc y fyddai'n dosbarthu'r llythyr hwn oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i Aelodau er gwybodaeth.

**54 Hyfforddiant**

Nodwyd fod y Clerc yn mynd i Hyfforddiant Datganoli Gwasanaethau / Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn Aberystwyth ar 13eg Medi.

**55 Unrhyw Fater Arall**

- a) Dywedodd y Cynghorydd Gwenno Piette fod y sesiwn glanhau'r traeth wedi'i drefnu ar gyfer 23ain Medi mewn cysylltiad â Cered – Menter Iaith Ceredigion.
- b) Dywedodd y Cynghorydd Aled Roberts fod y golau stryd ger Carlton House ar y stryd fawr yn dal ddim yn gweithio.
- c) Dywedodd y Cynghorydd Jim Hughes fod angen trasho'r llwybrau troed a bod tyfiant yn hongian dros Faes Parcio'r Waun. Dywedodd y Cynghorydd Bryan Tomlins fod y tyfiant ar hyd ffens Craig ddu yn hongian dros palmant yr A487.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 p.m.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 3ydd Hydref 2017.

**52 One Voice Wales Annual Conference**

Consideration was given to the motions to be discussed at the Conference and it was **RESOLVED** to request Councillor Tomlins to vote as mandated.

**53 Carer Aware e-learning**

The Clerk stated that he would distribute this letter from Ceredigion County Council to Members for information purposes.

**54 Training**

It was noted that the Clerk was attending the Devolution of Services/Community Asset Transfer training in Aberystwyth on 13th September.

**55 Any Other Business**

- a) Councillor Gwenno Piette stated that the beach clean up session had been arranged for 23<sup>rd</sup> September in association with Cered - the Ceredigion Welsh Language Initiative.
- b) Councillor Aled Roberts stated that the street lamp near Carlton House on the main road was still not working.
- c) Councillor Jim Hughes stated that the footpaths needed trashing and that growth was over-hanging the Waun Car Park. Councillor Bryan Tomlins stated that growth along Craig Ddu fence was over-hanging the A487 pavement.

The meeting concluded at 9.20 p.m.

Date of Next Meeting – 3<sup>rd</sup> October 2017.